



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WG 002/2018	Dyddiad cyhoeddi:	09 / 05M / 2018
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	Adeiladau Ynni a Eithrir - Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion Cymru		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:		Anfonwch ymlaen at:	
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys		Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau Cynulliad	
Crynodeb:			
Mae'r cylchlythyr hwn yn cyhoeddi bod y swyddogaethau o dan Adran 54 Deddf Cymru 2017 mewn cysylltiad ag Adeiladau Ynni a Eithrir, yn cael eu trosglwyddo o 1 Ebrill 2018 i Weinidogion Cymru.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful CF48 1UZ		Llinell Uniongyrchol: 03000 628144 E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy	

Cylchlythyr

Adeiladau Ynni a Eithrir, Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion Cymru

Cyflwyniad

1. Rwyf wedi cael fy nghyfarwyddo i dynnu'ch sylw at Reoliadau Rheoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio) (Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018

Cwmpas

2. Mae'r cylchlythyr hwn yn ymwneud â gwaith adeiladu a wnaed yng Nghymru ar *adeiladau ynni a eithrir*.
3. Cafodd y swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") o ran gwneud rheoliadau adeiladu a materion cysylltiedig eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2011. Cafodd "adeiladau ynni a eithrir" eu heithrio o'r trosglwyddiad a'u diffinio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw.
4. Mae Adran 54 Deddf Cymru 2017 yn diddymu'r eithriad hwnnw mewn cysylltiad ag adeiladau ynni a eithrir trwy wneud y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o dan Ddeddf 1984 ar gyfer y categori hwnnw o adeilad o 1 Ebrill 2018.
5. Roedd y diwygiadau i Reoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy ac ati) 2010 a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o 31 Rhagfyr 2011 yn gymwys i Loegr a hefyd i adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.
6. Roedd y diwygiadau i'r Rheoliadau hyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o 31 Rhagfyr 2011 yn gymwys i Gymru ond nid i adeiladau ynni a eithrir.
7. Effaith y diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau hyn yw cysoni'r darpariaethau yn Rheoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy ac ati) 2010 mewn cysylltiad ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru â'r darpariaethau sy'n gymwys i adeiladau eraill yng Nghymru.
8. Mae'r term 'adeiladau ynni a eithrir' yn diflannu gan fod swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Adeiladu 1984 bellach yn gymwys i'r holl waith adeiladu sy'n destun rheoliadau adeiladu.

Trefniadau pontio

9. Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar waith a ddechreuwyd cyn 8 Mehefin 2018 ar adeiladau ynni a eithrir neu lle y rhoddwyd cais o dan reoliadau

adeiladu (cynlluniau llawn, hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol)
cyn 8 Mehefin 2018.

Dyddiad cyhoeddi

10. Daw Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio) (Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018 i rym yng Nghymru o 8 Mehefin 2018.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am y Cylchlythyr hwn, holwch:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Rhif Ffôn: 03000 628144.

E bost enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Yn gywir,



François Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru

Mae'r Adeiladau Ynni a Eithrir, Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion Cymru ar gael ar y ddolen isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/558/contents/made>